



Mr Dai Lloyd AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

21 Tachwedd 2017

Annwyl *Dai*

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Tachwedd ata i ac at y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19. Rwyf am ateb y cwestiynau a gawsom gennych.

1. Beth yw'r rhesymeg dros wahanu chwaraeon a gweithgaredd corfforol o iechyd y cyhoedd eto, o gofio bod y papur tystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer y sesiwn graffu ar y gyllideb gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant yn tynnu sylw at y ffaith i'r Llywodraeth hon ddwyn chwaraeon ac iechyd y cyhoedd ynghyd oherwydd cyfraniad pwysig chwaraeon i lefelau gweithgaredd corfforol?

Nid ydym yn credu bod iechyd, chwaraeon a gweithgaredd corfforol wedi'u gwahanu, er gwaetha rhannu portffolios. Bydd chwaraeon yn dal i wneud cyfraniad arwyddocaol, ond rhaid wrth ymateb ehangach a chydweithio ar draws y llywodraeth i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo ffyrdd o fwy a dewisiadau iachach ac rydym yn gweithredu trwy ymyriadau i atal afiechyd, annog mwy o weithgarwch corfforol er sicrhau llesiant cyffredinol gydol bywyd yn ogystal â mynd i'r afael â gordewdra trwy amrywiaeth o bolisïau, rhaglenni a deddfwriaeth.

2. Cafwyd eglurhad o gylch gwaith Chwaraeon Cymru gan y Gweinidog blaenorol â chyfrifoldeb dros iechyd y cyhoedd a chwaraeon fis diwethaf:

- **A fydd y newid yn y portffolios gweinidogol yn cael effaith ar hyn, neu ar y fframwaith canlyniadau newydd y rhoddwyd y cyfrifoldeb am ei ddatblygu i Chwaraeon Cymru?**
- **A oes gan y Gweinidog yr un weledigaeth ar gyfer Chwaraeon Cymru?**

Ni fydd y newid yn y portffolios yn rhwystro nac yn cael effaith ddrwg ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Chwaraeon Cymru nac ar ei fframwaith canlyniadau.

Rydym yn llwyr gefnogi a chofleidio'r weledigaeth ar gyfer Chwaraeon Cymru. Dyma gyfle i bawb yng Nghymru helpu i ddylanwadu ar y ffordd y caiff chwaraeon eu darparu yng Nghymru ac i gael mwy o bobl i fod yn gorfforol egniol ar hyd eu bywydau. Yn dilyn yr adolygiad annibynnol o Chwaraeon Cymru, gwnaed cyfres o argymhellion ac mae Chwaraeon Cymru wedi ymateb yn bositif iawn iddynt. Yn eu plith y mae mabwysiadu ffordd newydd i ddangos gwerth ac effaith chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae gwaith ar hyn eisoes wedi dechrau.

3. Nododd y Gweinidog blaenorol ofyniad i Chwaraeon Cymru ac lechyd Cyhoeddus Cymru gydweithio i gyflawni'r ymrwymiad i gynyddu lefelau gweithgaredd corfforol yn sylweddol:

- **A fydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth?**
- **Os felly, sut y bydd y ddau bortffolio yn cael eu halinio yn y Llywodraeth er mwyn cyflawni'r amcanion hyn?**

Byddwn yn parhau i weithio ar draws y portffolios i wneud y mwyaf o bob cyfle i gael pobl i wneud mwy o weithgarwch corfforol. Mae cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol yn dal i fod yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn unol â'r rhaglen Ffyniant i Bawb. Mae angen nifer o bartneriaid sy'n gweithio'n effeithiol â'i gilydd i roi'r agenda hon ar waith, a bydd angen inni droi at adnoddau naturiol sylweddol Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol pobl.

Bydd y cydweithio rhwng Chwaraeon Cymru ac lechyd y Cyhoedd yn parhau a thros y misoedd i ddod, byddant yn datblygu blaenoriaethau a mesurau fydd yn cyfrannu at ein cynllun ar gyfer cyflawni amcanion ein strategaeth genedlaethol. Maent eisoes wedi trafod â chyrff cyhoeddus eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru i gytuno ar set gyffredin o amcanion a dangosyddion. Bydd y gwaith hwnnw'n parhau, er mwyn creu fframwaith canlyniadau newydd ar gyfer gweithgarwch corfforol, rhai mesuriadau perfformiad cytûn a dulliau o bwys a mesur effaith a gwerth am arian. At hynny, dywed Deddf lechyd Cyhoeddus Cymru bod gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ynghylch atal a lleihau gordewdra. Bydd gweithgarwch corfforol ac osgoi bywydau llonydd yn rhannau pwysig o'r strategaeth honno.

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu cyllid adnoddau chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn gyffredinol ar ei lefel bresennol (£22.3 miliwn), ond os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif am yr agenda ataliol, oni ddylai fod gan weithgaredd corfforol flaenoriaeth uwch o ran cyllid?

Roedd Ffyniant i Bawb yn glir ynghylch ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu lefelau gweithgaredd corfforol. Mae ariannu wrth gwrs yn hanfodol, ond ceir hefyd cymorth amrywiaeth o bartneriaid - Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Ysgolion, Cyflogwyr - i sicrhau bod cyfleoedd am weithgarwch corfforol yn dod yn rhan o fywyd pob dydd pawb yng Nghymru.

Mae lefelau ariannu o fewn y gyllideb ar gyfer mesurau a rhaglenni penodol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol wedi'u diogelu ond gwneir mwy na hynny i gynyddu gweithgarwch corfforol. Er enghraifft, nid ydynt yn talu am deithio llesol, Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff, cefnogaeth i'r Dail Mile na gweithio â chyflogwyr i hybu gweithgarwch corfforol.

5. Pa gyfran o gyllid chwaraeon a gweithgaredd corfforol sy'n cael ei neilltuo ar gyfer cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol plant a phobl ifanc, ac a yw hyn yn sylweddol wahanol o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol?

Mae cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch egnïol yn parhau'n flaenoriaeth i Chwaraeon Cymru ac rydym yn gweld bod lefelau'n codi. Ond rydym yn deall bod llawer i'w wneud eto.

Mae Chwaraeon Cymru'n dal i roi arian i gefnogi pobl ifanc ac eleni, bydd yn buddsoddi £11.5m mewn amrywiaeth o raglenni sy'n canolbwyntio ar gefnogi chwaraeon a chyfleoedd am weithgarwch corfforol ar draws ein cymunedau.

6. Gofynnwyd i Chwaraeon Cymru ddatblygu dull newydd ar gyfer gweithgaredd corfforol, gan dargedu cymunedau sy'n llai tebygol o fodloni canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol. Nid oes cynnydd yng nghyllideb adnoddau Chwaraeon Cymru ar gyfer 2018-19:

- **Pa mor hyderus yw'r Gweinidog fod gan Chwaraeon Cymru'r capasiti i gyflawni hyn?**
- **A gaiff effeithiolrwydd a gwerth am arian eu gwerthuso o ran y ffordd y rhoddir y dull newydd ei roi ar waith?**
- **Beth fydd cyfraniad lechyd Cyhoeddus Cymru i'r dull newydd hwn?**

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymateb yn bositif iawn i'r adolygiad annibynnol ac fel rhan o'u hymateb, maen nhw newydd lansio "Chwaraeon a fi - Y Sgwrs" sydd am wahodd pobl o bob rhan o Gymru, o lefel y gymuned i lefel yr elit, i cynnig syniadau a sylwadau fel rhan o sgwrs genedlaethol. Bydd y safbwyntiau hyn yn ein helpu i ailystyried ein ffyrdd o weithio gyda'n gilydd, beth i fuddsoddi ynddo yn y dyfodol, creu ffocws newydd a'n helpu i greu gweledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon. Ond a hyn sy'n bwysig, nid gweledigaeth Chwaraeon Cymru mohoni, ond gweledigaeth ar gyfer pawb.

Rydym yn gwbl ffyddiog y gail Chwaraeon Cymru adeiladu ar sylfeini'r llwyddiant sy'n cael ei gydnabod yn yr adolygiad i uno'r sector chwaraeon ac i ddod â manteision gweladwy a thymor hir i gymunedau Cymru. Rydym am weld plant o bob cefndir cymdeithasol yn cael y dechrau gorau posib yn eu bywyd ac i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gael mwy o gyfleoedd a chyfleoedd gwell i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rheolaidd. Bydd Chwaraeon Cymru'n gweithio gydag lechyd Cyhoeddus Cymru i nodi cyfleoedd i gynyddu gweithgarwch corfforol pobl. Fel rhan o'r cynllun cymryd rhan cynhwysfawr newydd, bydd mesur, gwerthuso ac effeithlonrwydd i gyd yn rhannau canolog a sylfaenol o waith Chwaraeon Cymru.

7. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wrth y Pwyllgor fod awdurdodau lleol wedi ymateb i'r pwysau ariannol trwy flaenoriaethu gwasanaethau statudol, yn aml ar draul gwasanaethau anstatudol megis canolfannau hamdden sydd â rôl ataliol:

- **A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith y toriadau i ganolfannau gwasanaethau hamdden cymunedol ar lefelau gweithgaredd corfforol?**
- **Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lliniaru hyn?**

Nid oes asesiad wedi'i gynnal o effaith y toriadau i ganolfannau hamdden cymunedol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yng ngoleuni'r pwysau ar y gyllideb, bod gan gyrff sector cyhoeddus, fel awdurdodau lleol, benderfyniadau anodd iawn i'w gwneud, yn enwedig o ran gwasanaethau anstatudol fel chwaraeon a chyfleusterau hamdden.

I helpu awdurdodau lleol i benderfynu, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau. Er enghraifft, ym mis Mawrth llynedd, gofynnwn ni i Chwaraeon Cymru ddatblygu Cyfleusterau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Glasbrint ar gyfer chwaraeon a hamdden egniol yng Nghymru i helpu perchenogion, rheolwyr a buddsoddwyr cyfleusterau i ystyried ffactorau ehangach yn eu cymunedau, y newid yn y galw a'r cyfleoedd i gydweithio, arloesi a buddsoddi'n gallach. Datblygwyd y ddogfen ar y cyd â phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi helpu i rannu arferion da trwy rannu pecyn adnoddau ar Drosglwyddo Asedau i Gymunedau i helpu grwpiau cymunedol sydd am ddod yn berchenogion ar ased cymunedol fel canolfan hamdden neu glwb chwaraeon.

Rwy'n gobeithio fy mod wedi ateb y cwestiynau rydych wedi'u gofyn ac yn tawelu meddwl y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ein bod wedi ymrwymo o hyd i gynyddu lefelau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Cymru ac i gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid i fynd â'r agenda yn ei blaen.

Yn gywir



Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport